CWVYS

Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol
Council for Wales of Voluntary Youth Services

# Ymddiriedolwyr ar y Bwrdd

## Cydweithrediad unigryw rhwng busnesau Cymru a'r sector ieuenctid gwirfoddol



www.cwvys.org.uk



# Ymddiriedolwyr ar y Bwrdd

Mae 'Rhaglen Ymddiriedolwyr ar y Bwrdd' CWVYS yn gydweithrediad unigryw rhwng busnesau Cymru a'r sector ieuenctid gwirfoddol yma yng Nghymru, gan ddarparu sgiliau newydd i fyrddau sefydliadau ieuenctid yng Nghymru. Mae hwn yn gyfle cyffrous i fusnesau a sefydliadau ieuenctid gwirfoddol wneud effaith gadarnhaol ar bobl ifanc ein cenedl ym mhob rhan o Gymru. Ar hyn o bryd rydym yn recriwtio, hyfforddi ac archwilio gwirfoddolwyr o fusnesau; gyda'r nod o roi'r cyfle iddynt hwy ac aelodau CWVYS i gryfhau a hybu cyfleoedd i bobl ifanc ledled Cymru.

Mae 20 aelod o CWVYS eisoes wedi ymuno â'r cynllun, a byddwn yn edrych i ddyblu cyfranogiad o leiaf erbyn diwedd y flwyddyn hon.

**Sut mae'n gweithio?**
I Aelodau CWVYS:

- Byddwn yn eich annog neu'n eich cynorthwyo gyda dadansoddiad sgiliau o'ch bwrdd.
- Byddwn yn gweithio gyda chi i sicrhau aelod bwrdd ychwanegol, a fydd yn dod â'r sgiliau ychwanegol a nodwyd gennych, i'ch helpu i gynnal a thyfu'r hyn a wnewch.
- Byddwn yn cynorthwyo lle bo angen yn ogystal â rhannu unrhyw gyfleoedd neu wersi sy'n codi o'r rhaglen ym mhob cam.
- Ac yn olaf, byddwn yn rhoi mesurau ar waith (erbyn Haf 2027) i gynnal y partneriaethau CWVYS / Busnes sydd wedi'u gwneud, er budd y ddau, i'r dyfodol.
- Sut ydw i'n ymuno? Beth sydd angen i mi ei wneud? Beth yw'r amserlen? ac ati.

Archebwch gyfarfod yma i drafod
**https://calendly.com/eifion-cwvys/new-meeting**





# Ar gyfer Busnesau yng Nghymru

• Byddwn yn rhoi cyfle i arweinwyr y dyfodol uchelgeisiol ymhlith eich staff ddatblygu eu rhinweddau unigryw o fewn un o'n sefydliadau Aelod fel aelod o'u bwrdd.

• Byddwn yn paratoi aelod/au eich staff mewn sesiwn awr yr wythnos am fis, fel eu bod yn ymwybodol o'r gofynion ar gyfer Ymddiriedolwr a/neu Gyfarwyddwr.

• Bydd aelod/au eich staff yn ennill sgiliau arweinyddiaeth gwerthfawr, cysylltiadau, datrys problemau a chynllunio strategol o fewn senarios bywyd go iawn.

• Yn y tymor hir, bydd gan eich busnes gysylltiad Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol rhagorol gydag un o 174 o sefydliadau ieuenctid sy'n ffurfio aelodaeth CWVYS ym mhob rhan o Gymru. O'r lleol i'r cenedlaethol, maent i gyd yn gwneud gwaith hanfodol ar draws ein cymunedau.

"Sut fydd fy aelodau staff yn cael eu cefnogi?"

Archebwch gyfarfod yma i drafod **https://calendly.com/eifion-cwvys/new-meeting**



# Amdanom ni

**CWVYS yw corff cynrychiadol annibynnol y sector gwasanaethau gwirfoddol gwaith ieuenctid yng Nghymru.**

Rydym yn hybu a chefnogi gwaith ieuenctid o ansawdd, yn llais torfol i'r sawl sydd yn cyflwyno gwasanaethau i bobl ifanc ar draws Cymru.

Gyda dros 170 sefydliad Aelod o gyrff cenedlaethol i grwpiau mwy lleol/rhanbarthol rydym yn creu ac yn datblygu partneriaethau gwaith dibynadwy.

Mae atebolrwydd, gwerthusiad clir ac arferion dysgu parhaus yn allweddol wrth hysbysu cyfeiriad y dyfodol.



**Yn 2027, fyddwn yn dathlu 80 mlynedd o gefnogi gwaith ieuenctid yng Nghymru**



# Ein prif weithgarwch

- Cynrychiolaeth genedlaethol a strategol ar gyfer y sector
- Cydweithrediad a gweithio gyda parthneriaid
- Cefnogwyr cyfnewid gwybodaeth
- Dathlu, mesur a chydnabod effaith cymdeithasol, economaidd a diwylliannol y sector gwaith ieuenctid gwirfoddol yng Nghymru
- Buddion i aelodau, cyfleoedd a datblygiadau

# Ein cryfderau



- Mae sefydliadau Aelod yn cyflwyno dwy draean o'r gwaith ieuenctid yng Nghymru
- Gweithio mewn partneriaeth gydag Aelodau, pobl ifanc, y sector preifat, Llywodraeth Cymru, cyrff proffesiynol/rheoleiddiol, addysg bellach ac uwch ac ymddiriedolwyr
- Adeiladu ar gyfleoedd i weithio gyda llywodraeth, awdurdodau lleol, gwasanaethau iechyd, gwasanaethau heddlu, cyrff proffesiynol a'r sector preifat
- Hysbysu cyrff etholedig a sefydliadau yng Nghymru am waith ieuenctid
- Cyfrannu drwy ymchwil ac ymgynghoriad i gyfeiriad polisi gwaith ieuenctid
- Datblygu ymhellach a marchnata ymchwil CWVYS, eu harloesedd a'u datrysiadau creadigol
- Darpau mynediad i gyrsiau arweinyddiaeth a rheolaeth i bobl ifanc

# Gwerth gweithio gyda'r sector gwaith ieuenctid gwirfoddol

**11 MILIWN AWR**





Daw budd i'r sector gwirfoddol o

**11** miliwn awr o waith gwirfoddol y flwyddyn

Caiff hyn ei greu gan

**145** miliwn awr o wirfoddoli gwerth £1.7bn neu 3.2% o GDP Cymru



A gydag amcangyfrif o

**£2bn** o incwm y Trydydd Sector, dyma gyfanswm o £3.7bn neu 6.8% o GDP Cymru



# Gwaith Ieuenctid yng Nghymru

Mae gwaith ieuenctid yng Nghymru yn mynd trwy newid hynod gadarnhaol. Mae CWVYS yn parhau i gefnogi gweithrediad Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol Cymru ac mae ganddo hanes rhagorol o ymgysylltu â Llywodraeth Cymru.

# Felly, ydych chi eisiau...

- datblygu talent eich gweithlu
- creu cyfleoedd i'ch staff helpu  sefydliadau gwirfoddol i dyfu a ffynnu?
- Ehangu eich Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol o fewn y sector ieuenctid gwirfoddol yng Nghymru

## CYSWLLT


**Eifion Williams**
Cydlynydd Ymgynghorol Gwirfoddolwyr Busnes

07597 590551

eifion@cwvys.org.uk

**www.cwvys.org.uk**

@CWVYS

Cwvys Cymru

cwvys_cymru



Registered Charity Number / Rhif Elusen Gofrestredig: 1110702
Company Number / Rhif y Cwmni: 5444248